CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL, PEN-Y-BONT AR OGWR)
(GWAHARDD MYNEDIAD) (AMRYWIO) (DIRYMU) 2022

HYSBYSIR DRWY HYN fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor"), sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Pen-y-bont yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 1 a 2 a Rhan IV o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Heddlu ac yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, a'r effaith fydd:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2022 ac fe'i enwir yn "ORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL), PEN-Y-BONT AR OGWR)(GWAHARDD MYNEDIAD)(AMRYWIO)(DIRYMU) 2022"

2. Amrywio Gorchymyn Cyngor Sir Morgannwg (Ffyrdd Amrywiol, Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwahardd Mynediad), 1973 ("Gorchymyn 1973") fel o'r dyddiad y daw'r gorchymyn i rym, bydd yr atodlen i Orchymyn 1973 yn cael ei diwygio i ddileu'r darnau o ffyrdd fel y manylir arnynt yn atodlen 1 isod, fel o'r dyddiad y daw'r gorchymyn hwn i rym y dylid dehongli a darllen yr atodlen i Orchymyn 1973 fel y'i cynhwysir yn atodlen 2 isod.

3. Ac eithrio fel y mae'r Gorchymyn hwn yn amrywio, bydd y darpariaethau sy'n weddill o Orchymyn 1973 yn bodoli ac yn parhau i fod mewn grym llawn.

4. I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn yn gwrthdaro â darpariaeth sydd wedi'i chynnwys mewn Gorchymyn a wnaed neu sy'n weithredol fel pe bai wedi'i wneud o dan y Ddeddf sy'n bodoli ar yr adeg y daw'r Gorchymyn hwn i rym ac sy'n gosod cyfyngiad neu waharddiad ar gerbydau a/neu gerddwyr yn y darnau o ffyrdd sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, y ddarpariaeth honno o'r Gorchymyn hwn fydd drechaf.

5. Bydd y gwaharddiad neu'r gofyniad a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at ac nid yn rhanddirymiad o unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodir gan unrhyw reoliad neu Orchymyn a wneir neu sy'n weithredol fel pe bai wedi'i wneud o dan y Ddeddf neu gan neu o dan unrhyw ddeddfiad arall.

6. Dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd, ei gymhwyso, ei gydgrynhoi, ei ailddeddfu gan neu fel un sy'n effeithiol yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

7. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

ATODLEN 1

DARNAU O FFYRDD AC OCHRAU DARNAU O FFYRDD YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

1.	2.
Nolton Street	Free School Court
Coychurch Road	South Place

ATODLEN 2

DARNAU O FFYRDD AC OCHRAU DARNAU O FFYRDD YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

1.	2.
Nolton Street	Edward Street
Caewallis Street.	Phyllis Avenue
Park Street	Cae Dre Street
Derwen Road	Mackworth Street
Y darn hwnnw o Sunnyside Road o'i chyffordd ag Angel Street i ochr ogleddol ei chyffordd â Rice Street	Y darn hwnnw o Sunnyside Road o ochr ogleddol ei chyffordd â Rice Street, i'w phen caeedig.
Rice Street	Y darn hwnnw o Sunnyside Road o ochr ogleddol ei chyffordd â Rice Street, i'w phen caeedig.
Y lôn sy'n cysylltu Park Street a Sunnyside Road.	Y darn hwnnw o Sunnyside Road o'i phen caeedig i ochr ogleddol ei chyffordd â Rice Street

Dyddiedig y diwrnod hwn o 2022

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN Cyngor**))
Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr)
ym mhresenoldeb:-)

LLOFNODWR AWDURDODEDIG